Llwybr y Gymraeg – BA1A 2022-23

Darlith 3: 24.11.22

Cwestiynu

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

n.evans@pcydds.ac.uk

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGORIAITH

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Munud i feddwl ...



Beth yw un o'r pethau fyddwch chi'n ei wneud yn aml iawn yn y dosbarth Cyfnod Sylfaen?

Heddiw, byddwn ni'n …



- adolygu 'rhannau ymadrodd'.
- dysgu sut i lunio cwestiynau'n gywir.
- dysgu sut i ateb cwestiwn yn negyddol ac yn gadarnhaol.
- rhannu syniadau sut i feithrin atebion cywir gan y disgyblion.

Eich llais …

magu hyder

Dechrau bob sgwrs yn y Gymraeg

treiglo

ei neu **eu**?

sillafu


ymateb yn gywir i'r disgyblion



Pam mae cwestiynu mor bwysig?

Llinyn mesur cyrhaeddiad ieithyddol plant.

Arf pedagogaidd pwysig yn y dosbarth i fesur ac ymestyn dealltwriaeth y plant.



Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.

Cymraeg/Saesneg

Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2
Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well. Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld.	Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan ofyn cwestiynau a dangos fy nealltwriaeth.

Yes!

No!



Do you like chocolate?

Would you like a piece of fruit?

Can I see your work?

Will you put the pencild in the drawer please?

Did you reas last night?

Yn Saseneg, mae'n hawdd ateb cwestiynau ond yn y Gymraeg mae sawl gwahanol ffordd.

Allwch chi feddwl am ffyrdd gwahanol o ddweud “yes” a “no” yn y Gymraeg?
Ysgrifennwch gymaint o ffyrdd ag y gallwch mewn 1 funud.



Ffurfio cwestiynau…

Pan fydd y cwestiwn yn dechrau gyda ‘Oes…?”, yna “Oes” neu “Nac Oes” fydd yr ateb bob tro.

Edrychwch ar yr enghreifftiau canlynol:

Oes brawd gyda **John**? Oes / Nac oes.

Oes brechdanau gyda **chi**? Oes / Nac oes.

Oes pensiliau **ar y bwrdd**? Oes / Nac oes.

Ffurfio cwestiynau…

Oes > ffurfiau amhendant

Is there a…? *Are there any…?*

Oes llyfr ar y bwrdd? Oes pensiliau yn y bocs?

Ydy (ydy'r) > ffurfiau pendant

Is (the)…? *Are (the) …?*

Ydy John yn absennol? Ydy'r llyfr ar y bwrdd?

ATEBION: **Oes / Nac oes** neu **Ydy / Nac ydy**

Ffurfio cwestiynau…

Pan fyddwn ni'n siarad am rywbeth sy "gyda" rywun (*to have* yn Saseneg), rhaid i ni ddenfyddio:

Oes (rhywbeth) gyda (rhywun)?

Oes gwallt coch gyda fe?

Oes brechdanau gyda ti?

Cwestiynau yn yr amser gorffennol …

- Rhaid treiglo'n feddal wrth ofyn cwestiwn sy'n defnyddio berf gryno yn y gorffennol e.e.

  Ddarllenodd e'r llyfr?

  Welodd e'r rhaglen?

  Dderbyniodd hi'r sefyllfa?

- Ateb: Do/Naddo

Cwestiynau yn yr amser gorffennol …

- Os ydych am fod yn fwy ffurfiol, rhaid defnyddio'r geiryn gofynnol 'a', e.e.

  A **dd**arllenodd e'r llyfr?
  A **w**elodd e'r rhaglen?
  A **dd**erbyniodd hi'r sefyllfa?

- Ateb: Do/Naddo

- SYLWER: Mae'r treiglad yn aros!

Cwestiynau pwysleisiol …

Os ydy cwestiwn yn cael ei ofyn mewn ffordd bwysleisiol, hynny yw, trwy roi'r pwyslais ar ddechrau'r cwestiwn, yna 'ie' a 'nage' fydd yr atebion bob tro.

Er enghraifft:

Mared oedd yr enillydd? Ie / Nage

I Gaerdydd **rwyt ti'n mynd** i siopa? Ie / Nage

Frozen **fydd** hoff ffilm **y plant**? Ie / Nage

Yr ateb yw …

Ydw



… ond beth yw'r cwestiwn?

Yr ateb yw …

Oedd



… ond beth yw'r cwestiwn?

Yr ateb yw …

Nac oes



… ond beth yw'r cwestiwn?

Yr ateb yw …

Byddaf




… ond beth yw'r cwestiwn?

Yr ateb yw …

Do




… ond beth yw'r cwestiwn?



Pa un ddylwn i ei ddefnyddio?

Mae cliw yn y cwestiwn fel arfer!

CWESTIYNAU:
1. **Oes** car gennyt ti?
2. **Ydy** e'n mynd heno?
3. **Oedd** Rhodri yn disgwyl ennill?
4. **Fyddi** di'n gorffen am dri?
5. **Est** ti i'r llyfrgell ddoe?
6. **Ai** i'r llyfrgell est ti ddoe?



Pa un ddylwn i ei ddefnyddio?

Mae cliw yn y cwestiwn fel arfer!

CWESTIYNAU:
1. **Wyt ti** yn canolbwyntio?
2. **Ydych chi** wedi gorffen?
3. **Ydw i** yn siarad?
4. **Ydw i'n cael** mynd adre?
5. **Ife** pensil yw hwnna?
6. **Alla i** fynd adre?

Sawl a Faint?

Ffurfio'r cwestiwn …

Sawl gydag enw unigol – Sawl plentyn sydd yn y dosbarth?

Faint gydag enw lluosog, ond cofiwch yr 'o' a'r treiglad meddal!
Faint o blant sydd yn y dosbarth?

Ateb y cwestiwn …

Gallwn ateb y ddau gwestiwn trwy roi rhif yn lle faint/sawl …

Sawl plentyn sydd yn y dosbarth? Naw plentyn sydd yn y dosbarth.

Faint o blant sydd yn y dosbarth? Naw o blant sydd yn y dosbarth.

Tasg: Sawl a Faint?

Ysgrifennwch un cwestiwn ‘Sawl?’ ac un cwestiwn ‘Faint?’ yn y sgwrs.



Tasg 1: Cwestiynau

- Meddyliwch am 6 chwestiwn y byddwch chi'n eu defnyddio yn y dosbarth Dysgu Sylfaen.
- Meddyliwch am y patrymau gwahanol rydyn ni wedi eu trafod, e.e.

  Oes unrhyw un yn absennol heddiw?

Tasg 2: Atebion

- Rhowch eich cwestiynau i'ch partner, er mwyn iddo eu hateb.

Cwestiynau o bob math…

Mae dau brif fath o gwestiwn …

1. Cwestiwn caeëdig

Gyda chwestiynau caeëdig, atebion cadarnhaol neu negyddol sy'n bosib; neu atebion byr.

Mae cwestiynau caeëdig yn rhoi'r cyfle i adalw gwybodaeth ac adolygu dealltwriaeth.

Cwestiynau caëdig …

Er mai atebion cadarnhaol / negyddol neu fyr sy'n bosib i gwestiwn caëdig, mae sawl ffordd o ateb …



Cwestiynau o bob math…

Mae dau brif fath o gwestiwn …


2. Cwestiwn agored

Yma, mae amrywiaeth o atebion posib.

Gyda chwestiynau agored, mae cyfle I ddisgyblion rannu eu meddyliau, eu syniadau a'u barn.

Cwestiynau agored …

Bydd cwestiynau agored yn caniatáu amrywiaeth o atebion. Byddan nhw'n cychwyn gyda'r geiriau gofynnol hyn …



Y treigladau …


Sut + berf		Sut taloch chi am y llyfrau?
Sut + enw	Treiglad meddal	Sut **g**yfrifiadur yw e?
Pryd + berf		Pryd cyrhaeddon nhw?
Ble + berf		Ble gadawaist ti dy got?
Beth + berf	Treiglad meddal	Beth **dd**ywedodd y rhiant?
Faint + berf	Treiglad meddal	Faint **d**alon nhw?
Pwy + berf	Treiglad meddal	Pwy **f**wytodd y cinio?
Pa + enw	Treiglad meddal	Pa lyfrau ysgrifennodd hi?
Pa + enw + berf	Treiglad meddal	Pa lyfrau **dd**arllenaist ti?
P'un + berf	Treiglad meddal	P'un **b**rynoch chi?
Pam		Pam dest ti i'r ysgol?


Tasg 3: Yn y dosbarth




- Edrychwch ar y llun.
- Meddyliwch am 8 cwestiwn caeëdig i'w gofyn i'r disgyblion.
- Meddyliwch am 2 gwestiwn agored i'w gofyn i'r disgyblion.
- Cofiwch dreiglo'n gywir!
- Mwynhewch!











Yn y dosbarth

Cwestiynau caeëdig:
1.
2.
3.
4.
5.
6.
7.
8.
Cwestiynau agored:
1.
2.





Defnyddio lluniau i ddatblygu iaith
(yn y Cyfnod Sylfaen)



Beth …?

Pa liw …?

Sawl …?

Enwch …

Sut …?

Oes …?

Ydy …?

Pam …?

Ping pong neu bêl-rwyd?


Meddyliwch am ddatblygu sgiliau cwestiynu fel dwy gêm. Ar y dechrau rydych chi am ddysgu'r patrymau cywir iddyn nhw drwy ddarparu cyfleoedd i atgyfnerthu patrymau holi ac ateb (ping pong). Yn y pendraw, rydych chi am annog disgyblion i ateb ei gilydd yn gywir a chwestiynu ei gilydd hefyd (pêl-rwyd).






Tasg: Seren Iaith

- Tasg gyfeiriol:
  - **Cwestiynau 2**
  - **Cwestiynau 4**





Darlith nesaf:

1.12.2022

@ 11yb

CJ5